Swyddog Cymorth Busnes #ArYLôn

Swydd Ddisgrifiad.

Parc Gwyddonieth Menai Cyf.

"Tanio uchelgais ac arloesedd i bweru Cymru gynaliadwy."

Swydd deitl	**Swyddog Cymorth Busnes #ArYLôn**
Yn atebol i	Rheolwr Ymgysylltu a Chymuned
Lleoliad	Lleoliadau dros dro yng Ngwynedd gan gynnwys Bangor, Pwllheli (hyd at fis Mai 2024, gyda'r lleoliad nesaf i'w gadarnhau yng Ngwynedd neu Gonwy) Wedi'i leoli'n achlysurol o Barc Gwyddoniaeth Menai, Ynys Môn.
Oriau Gwaith	**Dydd Llun i ddydd Gwener** lleiafswm o 37.5 awr yr wythnos a hyd at 48 awr yr wythnos. Mae digwyddiadau rhwydweithio, gweithdai a seminarau, digwyddiadau gyda'r nos a theithio yn golygu bod yr hyblygrwydd i weithio oriau ychwanegol yn hanfodol. Bydd gweithio gyda'r nos yn rhan o'r rôl.
Cyflog	**£30,000-£35,000 + Treuliadau**
Term	24 mis (tymor penodol yn y lle cyntaf)

Gwneud gwahaniaeth.

Mae hwn yn gyfle cyffrous ac yn gyfle gyrfa gwych i weithio i'r Parc Gwyddoniaeth pwrpasol cyntaf yng Nghymru. Byddwch yn cyfrannu at lwyddiant prosiect a gydnabyddir gan Lywodraeth Cymru fel sbardun economaidd allweddol yn y rhanbarth. Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm bach sy'n ymroddedig i wella ffyniant pobl Cymru. Dyma gyfle i wneud argraff a chael effaith.

Mae M-SParc (is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Brifysgol Bangor) yn gweithredu Parc Gwyddoniaeth ar Ynys Môn gyda'r nod o gefnogi mentrau a phrosiectau sy'n cael eu harwain gan wybodaeth i dyfu a llwyddo. Ceir rhagor o fanylion ar ein gwefan ac ein gwefannau cymdeithasol.

Yn hollbwysig, mae'r rôl hon yn ganolog i gyflawni ein Hamcanion Strategol:

- Cyflwyno buddion economaidd a chymdeithasol mesuradwy i Ogledd Cymru.
- Bod yn gynaliadwy yn economaidd, yn ddiwylliannol ac yn amgylcheddol.
- Cael ein cydnabod yng Nghymru fel arweinwyr ym maes arloesi.
- Meithrin syniadau arloesol o'r cysyniadau i'r farchnad.
- Gwella enw da Gogledd Cymru fel lleoliad lle gall busnesau arloesol sy'n canolbwyntio ar wyddoniaeth a thechnoleg ffynnu.
- Hyrwyddo diwylliant o fentergarwch, cefnogi busnesau newydd a chwmnïau deillio a chadw busnesau mwy yn arloesol ac yn ffres.
- Darparu cyfleoedd cyflogaeth newydd i weithwyr medrus.
- Darparu dyfodol cadarnhaol i bobl ifanc y rhanbarth fod yn falch ohono ac anelu ato.
- Parhau â'n taith egnïol, fywiog a chyffrous gan fynd â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid ar y daith gyda ni.

Pwrpas y swydd

Bydd yr ymgeisydd yn arwain ar weithgareddau M-SParc yng Ngwynedd, gan gryfhau ein presenoldeb a'n heffaith yn y sir, darparu cefnogaeth busnes, a gweithio i gyflawni ein rhaglenni arloesi.

Bydd yr unigolyn yn trefnu gweithdai arloesol, yn hyrwyddo cyllid ymchwil a datblygu i fusnesau sydd wedi'u lleoli yng Ngwynedd, a hyrwyddo cyfleoedd i weithio gyda Phrifysgol Bangor i gyflawni prosiectau dylanwadol.

Bydd y rôl wedi ei leoli #ArYLôn. Mae lleoliadau #ArYLôn M-SParc yn darparu cyfleoedd i gymryd neges M-SParc ar draws Gogledd Cymru, gan helpu i ysbrydoli meddylfryd entrepreneuraidd ac arloesol ar draws y rhanbarth. Bydd yr unigolyn yn rheoli'r gwaith o redeg y lleoliadau #ArYLôn o ddydd i ddydd, gan weithio'n agos gyda'r swyddog #ArYLôn a STEM i dyfu'r gymuned o amgylch y lleoliad, a sicrhau rhaglen barhaus o ddigwyddiadau a gweithgareddau.

Bydd yr unigolyn yn ddigon hyblyg i gefnogi prosiectau eraill yn M-SParc, gan gynnwys gweithdai ad-hoc a digwyddiadau, felly mae'r angen i fod yn 'chwaraewr tîm' yn hanfodol.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

Dyletswyddau; Cymorth Busnes

- Cynnal rhaglenni cymorth busnes, gyda chymorth gan Dîm Arloesi M-SParc pan fydd angen.
- Arwain ar gyflwyno ein rhaglenni arloesi yng Ngwynedd.
- Darparu Cyngor a Chefnogaeth Busnes i gwmnïau o Wynedd, a chyflwyno busnesau i'r Cymorth Busnes perthnasol sy'n bodoli yn y rhanbarth lle bo'n briodol, gan gynnwys Busnes Cymru.
- Gweithio ar a chyflwyno Rhaglen Ailwefru Cyngor Gwynedd fel cynghorydd busnes. (https://m-sparc.com/recharge/)
- Datblygu rhaglenni newydd ac adnabod cyfleoedd newydd i gefnogi busnesau yng Ngwynedd i dyfu ac arloesi. Mae denu cyllid arloesi i Gymru yn un o'n Hamcanion.
- Adeiladu perthynas gyda Chyngor Gwynedd, i symud y rhaglen Ailwefru yn ei blaen, ond hefyd i gefnogi gweithgareddau Cefnogi Busnes eraill a chryfhau'r berthynas ar draws Gwynedd.
- Cysylltu â Phrifysgol Bangor, gan dyfu ein perthynas bresennol a sicrhau bod busnesau Gwynedd yn elwa o'r cysylltiad hwn.
- Hyrwyddo Clwstwr Gogledd Creadigol i fusnesau yn y rhanbarth.
- Sicrhau lefel o bresenoldeb ar draws Gwynedd, fel bod M-SParc yn hysbys i fusnesau sy'n ceisio Cefnogaeth Busnes, gyda ffocws arbennig ar arloesi, a bod gwasanaeth galw heibio a digwyddiadau yn cael eu hysbysebu ac ar gael.

Dyletswyddau; #ArYLôn

- Arwain ar reoli'r gofod #ArYLôn gan gynnwys amserlen agor a chau ar gyfer y ddau leoliad, gan sicrhau rhaglen reolaidd o ddigwyddiadau, a gweithio gyda'r gymuned yn y gofod.
- Cefnogwch *Swyddog Cymorth #ArYLôn a Gofod Gwneud* gyda thasgau dydd i ddydd.
- Meithrin perthnasoedd â 'chwaraewyr allweddol' lleol yn y lleoliadau #ArYLôn fel bod M-SParc yn dod yn rhan o'r gymuned.
- Sicrhau lefel eithriadol o Wasanaeth Cwsmer, a bod yn Llysgennad ar gyfer M-SParc, gan ddangos ethos y parc yn glir ym mhob cyfathrebiad.
- Trefnu digwyddiadau a sgyrsiau yn lleoliadau #ArYLôn er mwyn annog pobl i'w defnyddio. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar ddigwyddiadau Busnes a bydd yn cynnwys lefel o gysylltu â thimau Cymorth Busnes, Carbon Isel a Digidol M-SParc.
- Monitro a goruchwylio'r *hot desks* yn Lleoliadau #ArYLôn.
- Gweithio ar berthynas sy'n bodoli eisoes gydag Awdurdodau Lleol a Phrifysgol Bangor, fel eu bod yn elwa o #ArYLôn.

Dyletswyddau; Economi Gylchol

- Bod yn ymwybodol o'r economi gylchol yng Ngwynedd, gan adnabod cyfleoedd i gefnogi'r economi gylchol ac ychwanegu gwerth lle bynnag y bo modd.

Dyletswyddau; Eraill

- Bydd y swyddog yn cefnogi'r tîm marchnata drwy sicrhau bod unrhyw weithdai'n cael eu cynllunio a'u marchnata yn effeithlon.
- Mynychu digwyddiadau ymgysylltu, e.e. ffeiriau gyrfaoedd, arddangosfeydd busnes, digwyddiadau rhwydweithio, digwyddiadau rhanddeiliaid, a gweithgareddau cysylltiedig eraill
- Bydd gan yr ymgeisydd sgiliau gweinyddol eithriadol a bydd yn gyrru gwaith yn ei flaen mewn modd amserol.

Dyletswyddau Gweithredol a Chyffredinol

- Cymryd yr awenau i gefnogi ymholiadau cwsmer a chael hyd i gysylltiadau posibl a ffyrdd i gydweithio a chynorthwyo.
- Bod yn rhagweithiol a phositif gyda'r gymuned yma, mynd tu draw i'r hyn sydd ei angen i weithio gyda hwy a darparu gwasanaeth sydd y tu allan i Farchnata a Digwyddiadau.
- Cymryd penderfyniadau annibynnol, o fewn fframwaith wedi'i gytuno gyda Chyfarwyddwr y Cwmni a rheoli eu gwaith pan maent yn absennol.
- Cynllunio, blaenoriaethu a threfnu eich gwaith eich hun i gyrraedd amcanion a gytunwyd.
- Datrys problemau dydd i ddydd fel maent yn codi, tra'n cydnabod pryd y dylid cyfeirio'r broblem at eraill.
- Mabwysiadu agwedd gadarnhaol at waith Tim, bob amser yn chwilio am gyfleoedd i fod yn Llysgennad i M-SParc.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill ar gais y Cyfarwyddwr Gweithredol i adlewyrchu anghenion a gofynion newidiol M-SParc fel busnes.
- Dyletswyddau cyffredinol a dyletswyddau wedi'u rhannu yn ôl yr angen a all gynnwys:
    - Agor a chau'r adeilad fel bo'r angen ar sail rota.
    - Dyletswyddau derbynfa.
    - Ymateb i ddigwyddiadau a senarios i sicrhau iechyd a lles staff a thenantiaid fel ei gilydd.

Manyleb Person

Bydd y swyddog yn angerddol am y cyfleoedd arloesol sydd gan ogledd Cymru i'w cynnig ac yn cael ei yrru i gefnogi pobl i fanteisio ar y cyfleoedd hyn. Byddant yn gadarnhaol ynghylch ymgysylltu â grwpiau eraill yn y rhanbarth, i gydweithio a chyflwyno cyfleoedd pellach, a bydd ganddynt sgiliau pobl rhagorol i ddatblygu perthnasoedd gwaith cryf.

Sgiliau a Phrofiad – *Hanfodol*

Rydym yn chwilio am ymgeisydd sydd:

- Yn gallu meithrin perthnasoedd gwaith cryf, gan rwydweithio a chynrychioli M-SParc yn hyderus yn y rhanbarth.
- Yn meddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol.
- Gyda brofiad o ddarparu Cymorth a Chyngor Busnes i fusnesau.
- Yn gallu arwain ar brosiectau pan fo angen.
- Yn gallu gweithio fel rhan o dîm, gan gydnabod cyfle i gydweithio â chydweithwyr ac ychwanegu gwerth lle bo modd.
- Gyda'r gallu i gydlynu prosiectau heb fawr o oruchwyliaeth.
- Gyda brofiad o gyflwyno ar-lein a/neu wyneb yn wyneb i grwpiau amrywiol.
- Gyda sgiliau TG eithriadol, a pharodrwydd i ddysgu ac addasu i systemau newydd.
- Gyda'r gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg - hanfodol ar gyfer y swydd hon.
- Mae profiad o weithio mewn rôl sy'n wynebu diwydiant yn ddymunol, ond nid yn hanfodol.

Addysg, Hyfforddiant a Chymwysterau - *Hanfodol*

- Gradd **neu** brofiad Rheoli Prosiect **neu** Fusnes **neu** Cymorth Busnes Perthnasol.

Addysg, Hyfforddiant a Chymwysterau - *Dymunol*

- Profiad o gydlynu prosiectau neu weithio gyda thîm lle mae eraill yn gweithio ar linynnau ar wahân o'r un prosiect.
- Profiad o weithio yn y sector Cymorth Busnes.
- Profiad o weithio gydag Academia i ddatblygu prosiectau a rhaglenni newydd.

Effaith

Bydd eich rôl a'ch perfformiad yn effeithio'n uniongyrchol ar berfformiad y cwmni ac yn ei dro ar berfformiad economaidd y rhanbarth, felly mae hwn yn gyfle i gael effaith gadarnhaol a pharhaol ar gymunedau Gogledd Cymru. Rydym yn chwilio am berson sy'n gofalu am yr ardal a'i chymunedau ac sy'n credu y gall Busnes, Gwyddoniaeth a Thechnoleg gyfrannu at ddyfodol cynaliadwy i'n cymunedau.